



CANOLFAN MILENIWM CYMRU
WALES MILLENNIUM CENTRE

Canolfan Mileniwm Cymru

Adroddiad ar Fwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau – 2019

Pwy yw Canolfan Mileniwm Cymru?

Mae Canolfan Mileniwm Cymru yn gartref i'r celfyddydau yng Nghymru, ac yn grochan o greadigrwydd i'r genedl gyfan. Rydyn ni wedi'n lleoli yng nghalon Bae Caerdydd, ac wedi croesawu dros 18.5 miliwn o ymwelwyr ers i ni agor ein drysau yn 2004. Rydyn ni'n parhau i fod yn un o'r atyniadau ymwelwyr mwyaf poblogaidd yng Nghymru, ac yn anelu i danio'r dychymyg drwy ein rhaglen o theatr, cerddoriaeth a pherfformiadau, yn ogystal â phrofiadau dysgu sy'n cyfoethogi bywydau pobl ifanc.

Gweledigaeth ac Amcanion

Creu ysbrydoliaeth i Gymru, Creu Argraff ar y Byd, dyma yw gweledigaeth y Ganolfan. Rydyn ni'n gwneud hyn drwy greu profiadau ysbrydoledig sy'n cyfoethogi bywydau ac yn lledaenu gorwelion.

Yn y blynyddoedd i ddod, bydd y Ganolfan yn ceisio:

- Creu gwaith arloesol sy'n arddangos Cymru i'r byd
- Codi dyhead pob person ifanc yng Nghymru
- Bod yn agored i bawb
- Cael ei dathlu fel un o'r prif ganolfannau celfyddydau perfformio yn y byd


Pobl sydd wrth galon ein sefydliad, ac hebddynt ni fyddai modd i ni gyflawni'n gweledigaeth. Rydyn ni'n credu y dylai bob cyflogai gael y cyfle i lwyddo, i gyflawni eu potensial, a chyfrannu at lwyddiant y busnes.

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yng Nghanolfan Mileniwm Cymru

Mae ein hymrwymiad i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth wrth galon ein gweledigaeth a'n hamcanion. Mae'r Ganolfan yn credu mewn bod yn sefydliad cynhwysol ac amrywiol sy'n croesawu pob aelod o staff a phob ymwelydd, ac sy'n cynnig awyrgylch a gwasanaethau sy'n adlewyrchu'r bobl a'r cymunedau amrywiol rydyn ni'n ymwneud â hwy. Er mwyn i ni ffynnu rydyn ni'n sylweddoli bod angen bod yn rhagweithiol wrth chwalu unrhyw rwystrau allai atal pobl rhag ddefnyddio ein gwasanaethau neu rhag gwneud cais am swydd gyda ni. Yn sgil hyn, rydyn ni'n sicrhau nid yn unig bod ein harferion yn cydymffurfio, ond eu bod yn rhagweithiol, ac yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.

Ein Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau

Mae'r siart bar isod yn dangos y bylchau cyflog rhwng y rhywiau (cymedr / canolrif), yn seiliedig ar ddata ar 5 Ebrill 2018.



Geirfa'r siart bar:

Cymedr cyflog: Cyflog cyfartalog ar gyfer pob cyflogai (yn seiliedig ar gyfradd talu fesul awr)

Canolrif cyflog: Canolbwynt cyflog pan yn mynd o'r uchafswm i'r isafswm, ac felly'n rhoi golwg o'r tâl nodweddiadol gaiff cyflogai sydd ar gyflog canolig (yn seiliedig ar gyfradd talu fesul awr)

Chwartzelau ein Cyflog Rhwng y Rhywiau

Mae'r tabl isod yn dangos dosbarthiad y rhywiau ar draws y Ganolfan, mewn pedwar chwartzel o faint cyfartal, yn ôl bandiau cyflog.

CHWARTEL ISAF		CHWARTEL CANOL ISAF		CHWARTEL CANOL UCHAF		CHWARTEL UCHAF	
<u>Cyfanswm yn y Chwartzel =</u>	57	<u>Cyfanswm yn y Chwartzel =</u>	56	<u>Cyfanswm yn y Chwartzel =</u>	56	<u>Cyfanswm yn y Chwartzel =</u>	56
<u>% o Ddynion yn y Chwartzel Isaf =</u>	37%	<u>% o Ddynion yn y Chwartzel Canol Isaf =</u>	41%	<u>% o Ddynion yn y Chwartzel Canol Uchaf =</u>	43%	<u>% o Ddynion yn y Chwartzel Uchaf =</u>	55%
<u>% o Fenywod yn y Chwartzel Isaf =</u>	63%	<u>% o Fenywod yn y Chwartzel Canol Isaf =</u>	59%	<u>% o Fenywod yn y Chwartzel Canol Uchaf =</u>	57%	<u>% o Fenywod yn y Chwartzel Uchaf =</u>	45%

Taliadau Bonws

Fel rhan o'r goblygiadau adrodd statudol, mae'n rhaid i gyflogwyr gyhoeddi'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau a geir ymhlith eu taliadau bonws.

Yn 2018, rhoddwyd dau daliad bonws, ac mae'r Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau, Cymedr a Chanolrif yn 100%.

Esbonio ein Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau

Rydyn ni'n gwerthfawrogi amrywiaeth ein gweithlu ac yn ymrwymo'n llawn i greu awyrgylch sy'n gynhwysol i bawb; rydyn ni hefyd yn hyderus bod dynion a menywod yn derbyn tâl cyfartal am wneud swyddi cyfatebol ar draws y Ganolfan.

Mae ein dehongliad ni o'n Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau o 13.87% (yn seiliedig ar gipolwg o wybodaeth, dyddiedig 5 Ebrill 2018) yn cael ei yrru'n bennaf gan y ffactorau canlynol:

- Mae 21% yn fwy o fenywod nag o ddynion yn gweithio yn y Ganolfan
- Mae mwy o fenywod yn gweithio mewn swyddi is
- Yn ystod 2018 roedd ychydig mwy o ddynion yn gweithio mewn swyddi uwch (mae hyn bellach wedi newid)
- Dim ond dau fonws a roddwyd yn ystod 2018 (fel rhan o gytundebau unigol i dderbyn tâl yn unol â pherfformiad), ac fe dalwyd y rhain i ddau ddyn, yn unol â'u llwyddiannau yn ystod y flwyddyn

Mae'r canfyddiadau hyn yn dangos bod angen i ni ffocysu'n sylw a deall yn fwy penodol pam fod menywod yn tueddu i weithio mewn swyddi is yn y sefydliad, yn ogystal â deall sut gallwn ni gynyddu'r nifer o fenywod sy'n gweithio mewn swyddi uwch.

Mae rhai o'r llwyddiannau diweddar yn cyfrannu tuag ar leihau'r Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau yn 2020 a thu hwnt yn cynnwys Gweithredu Cyflog Byw Go lawn, yn ogystal â chyrraedd cydbwysedd rhwng y rhywiau ar lefel y tîm cyfarwyddo.

Ein Hymrwymiad

Byddwn yn parhau i adolygu ein polisiau a'n harferion yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn deg, gan gynnwys adolygu penderfyniadau sy'n ymwneud â chyflog.

Byddwn hefyd, dros y deuddeg mis nesaf, yn ymrwmo i wneud y canlynol:

- **Parhau i adolygu a gweithredu mentrau sy'n cefnogi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysedd**

Byddwn yn parhau i weithredu ein Strategaeth Pobl 5-mllynedd, a'n Cynlluniau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar gyfer 2019, er mwyn cynyddu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysedd yn y Ganolfan.

- **Gweithredu ein prosesau recriwtio mewn modd cyson**

Yn ddiweddar rydyn ni wedi cwblhau adolygiad o'n prosesau recriwtio, a byddwn yn sicrhau drwy gyfathrebu a hyfforddiant bod hyn yn cael ei weithredu'n gyson ac yn wrthrychol. Byddwn hefyd yn sicrhau bod swyddi newydd yn cael eu hysbysebu drwy ystod eang o sianeli.

- **Ymroi i ddatblygu ein cronfa o dalent**

Byddwn yn datblygu model rheoli talent ac olyniaeth sy'n sicrhau bod dyrchafiadau yn seiliedig ar botensial a pherfformiad.

- **Annog gweithio'n hyblyg**

Dengys ein holiaduron staff bod ein cyflogeion yn gwerthfawrogi'r hyblygrwydd rydyn ni'n ei gynnig. Byddwn felly'n parhau i annog ffyrdd o weithio'n hyblyg, er mwyn sicrhau bod y cydbwysedd rhwng bywyd personol a gwaith ein staff yn ateb y gofyn.

Rydyn ni'n cadarnhau bod y data yn yr adroddiad hwn yn gywir.



Mathew Milsom

Rheolwr Gyfarwyddwr

Ni yw Canolfan Mileniwm Cymru. Tanwydd i'r dychymyg.